Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2019

11.00 - 16.00

Prifysgol Aberystwyth

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Dr Haydn E Edwards William Callaway Nia Elias Yr Athro Jerry Hunter Gwilym Dyfri Jones Dr Hefin Jones Pedr ap Llwyd Dr Rhodri Llwyd Morgan Gareth Pierce
Sylwedyddion:	Gethin Morgan (UCMC/NUS Wales) Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd Catherine Rees, Ysgrifennydd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Dr Lowri Morgans, Rheolwr Addysg Bellach (prynhawn) Nia Brown, Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth
Hefyd yn bresennol:	Meirion Prys Jones, Cadeirydd, Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant (tan eitem 6)
Ymddiheuriadau:	Meri Huws Llinos Roberts Yr Athro Hywel Thomas Angharad Lloyd Williams

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	1.1 Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion. Estynnwyd dymuniadau gorau i'r Athro Hywel Thomas a oedd yn absennol oherwydd anhwylder.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. 2.2 Datganodd Gwilym Dyfri Jones ddiddordeb yn nhrafodaethau Addysg Gychwynnol Athrawon am ei fod yn gyflogedig gan sefydliad sy'n gweithredu fel canolfan hyfforddi athrawon.		
3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 20 Mawrth 2019 **(Eitem 3)**	3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2019. **Materion yn codi** 3.2 Adroddwyd bod y pwyntiau gweithredu a nodwyd yn y cofnodion naill ai wedi'u cwblhau neu fod yr eitem yn ymddangos ar yr agenda. 3.3 <u>Eitem 9.2 – Aelodaeth Llys y Coleg</u> Adroddodd y Prif Weithredwr y byddai'r swyddogion yn gofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch ymestyn aelodaeth	Darparu adroddiad ar aelodaeth y Coleg	27 Tachwedd 2019

	Llys y Coleg gan gyfreithwyr newydd y Coleg dros yr haf. Darperir adroddiad yn y cyfarfod nesaf.	yn dilyn cyngor cyfreithiol	
4. Materion Cyfansoddiadol	**Is-Gadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr** 4.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd ar broses enwebu Is-Gadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Cadarnhawyd yr argymhelliad bod Llinos Roberts yn gweithredu fel Is-Gadeirydd y Bwrdd. **Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant** 4.2 Argymhellwyd a chytunwyd bod Rhian Huws Williams yn gweithredu fel Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant o 1 Awst 2019. *Ar y pwynt hwn cyrhaeddodd William Callaway.*		
5. Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant **(Eitem 6a)** **(Eitem 6b)**	**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant** 5.1 Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant, Meirion Prys Jones. 5.2 Gan mai dyma oedd ei adroddiad olaf, diolchodd am y cyfle i fod yn Gadeirydd y pwyllgor a dymunodd yn dda i waith y Coleg yn y dyfodol. Diolchodd aelodau'r Bwrdd iddo am ei gyfraniad cydwybodol a thrylwyr yntau. **Holiadur gwerthuso'r Cyfarwyddwyr** 5.3 Derbyniwyd adroddiad ar ymatebion holiadur gwerthuso'r Cyfarwyddwyr. Nodwyd bod y mwyafrif o'r cyfarwyddwr wedi cwblhau'r holiadur. Trafodwyd a chytunwyd ar yr		

(Eitem 6c)	argymhellion a nodwyd y sylwadau canlynol: • Matrics sgiliau'r Bwrdd i gynnwys profiad a chymwysterau • Bod angen sgiliau penodol ar y pwyllgorau • Pwysigrwydd nodweddion amrywiaeth • Cyfleoedd i gynnal trafodaeth lai ffurfiol 5.4 Nodwyd bydd y Cadeirydd yn cynnal cyfarfodydd gyda chyfarwyddwyr unigol ac yn asesu sgiliau cyn diwedd yr haf. **Llefydd gwag ar bwyllgorau'r Coleg** 5.5 Adroddwyd bod trefniadau ar waith i adnabod unigolion addas ar gyfer y llefydd gwag ar y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol. **Cofnodion y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant** 5.6 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 22 Mai 2019. *Ar y pwynt hwn ymadawodd Meirion Prys Jones y cyfarfod.*		
6. Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol **(Eitem 7a)**	**Cofnodion Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol** 6.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2019. 6.2 Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 10 Ebrill 2019, gan Pedr ap Llwyd, Cadeirydd y pwyllgor.		

	Cyllideb 2018/19 6.3 Rhoddwyd adroddiad llafar ar gyllideb y Coleg ar gyfer 2018/19 gan Dr Dylan Phillips. 6.4 Nododd: • bod y llyfrau eisoes wedi cau a bod rhai mân amrywiadau i'r hyn a gyllidwyd yn wreiddiol • yr amrywiad gan yr Archwilwyr Allanol sy'n ymgorffori diffyg cyfraniadau'r Coleg yn sgil newidiadau i Gynllun pensiwn USS. Bydd pob prifysgol yn wynebu'r un cynnydd i'w cyfraniadau. • Bydd cyfrifon terfynol 2018/19 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol nesaf ar 25 Medi 2019 ac i'r Bwrdd yn ei gyfarfod nesaf.		
(Eitem 7bii)	**Trefniadau monitro buddsoddiadau'r Coleg** 6.5 Cyflwynwyd trefniadau posibl ar gyfer monitro buddsoddiadau'r Coleg gan y Cofrestrydd. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i benodi ymgynghorydd i gynghori'r Coleg ar reolaeth buddsoddiadau'r Coleg.	Penodi ymgynghorydd buddsoddiadau	Tymor yr haf
	6.6 Nodwyd bod y cyfrifoldeb am fonitro'r buddsoddiadau yn gorwedd gyda'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol		
(Eitem 7bi)	**Polisi Buddsoddiadau** 6.7 Cyflwynwyd polisi buddsoddiadau'r Coleg. Yn dilyn trafodaeth lawn cytunwyd i addasu rhai cymalau i gynnwys ymwybyddiaeth amgylcheddol a'r gofyniad i'r ymgynghorydd ddarparu cyflwyniad ynghylch y buddsoddwyr i'r Bwrdd yn flynyddol.	DT i ddiwygio'r polisi	Ar unwaith

7. Pwyllgor Archwilio a Risg **(Eitem 8a)** **(Eitem 8bi)**	**Pwyllgor Archwilio a Risg** 7.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 22 Mai 2019. 7.2 Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 22 Mai 2019, gan William Callaway, Cadeirydd y pwyllgor: • Nododd bod y pwyllgor wedi cymeradwyo cynllun yr Archwilwyr Mewnol newydd, cwmni TIAA. • Nododd ddiolch i Carol Warburton a chwmni Baldwins, yr Archwilwyr Mewnol blaenorol, am eu gwaith yn hwyluso strwythurau'r Coleg ers y dechrau. • Nododd trafodaeth *in camera* ar ddiwedd y cyfarfod lle nodwyd perthynas waith dda rhwng y swyddogion, aelodau'r pwyllgor a'r archwilwyr. **Y Gofrestr Risg** 7.3 Derbyniwyd adroddiad ar y diwygiadau i'r Gofrestr Risg ers y cyfarfod diwethaf gan y Cofrestrydd. 7.4 Yn ystod y drafodaeth ar heriau'r amgylchedd ariannol adroddodd Dr Cliona O'Neill ar safbwynt y Cyngor Cyllido ar adroddiad Augar. Nododd na ddylai'r cytundeb yng Nghymru fod yn ddrytach na Lloegr. Trafodwyd y bygythiad i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn sgîl toriadau posibl. Cytunwyd i gynnal trafodaeth yn y Bwrdd ynghylch y lefel cyllid a ddarperir i sefydliadau addysg uwch gan y Coleg. 7.5 Yn dilyn y drafodaeth derbyniwyd y Gofrestr Risg gyda'r addasiadau a argymhellwyd.		

(Eitem 8bii)	**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg** 7.6 Derbyniwyd adroddiad blynyddol gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.		
8. Bwrdd Academaidd **(Eitem 9a)**	**Bwrdd Academaidd** 8.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 8 Mai 2019. 8.2 Cafwyd crynodeb o brif bwyntiau cyfarfod 8 Mai 2019, gan y Deon, Dr Hefin Jones. **Darpariaeth cyfrwng Cymraeg** 8.3 Adroddwyd ar y gofid bod prifysgolion yn colli unigolion cyfrwng Cymraeg allweddol. (I'w drafod gan y Bwrdd yn Eitem 13). **Targedau cenedlaethol** 8.4 Adroddwyd y cafwyd trafodaeth lawn ar dargedau cenedlaethol. (I'w drafod gan y Bwrdd yn Eitem 12). **Myfyrwyr y tu hwnt i'r ffin** 8.5 Adroddwyd ar yr argymhellion cychwynnol i sefydlu rhwydwaith o fyfyrwyr sy'n astudio tu hwnt i Gymru. Yn ystod y drafodaeth ar yr argymhellion nodwyd: • goblygiadau Prosiect Seren ar Gymru • Effaith newid y system ffioedd yn Lloegr • Annog myfyrwyr i ddychwelyd i Gymru (gydag ysgoloriaethau ôl-raddedig, o bosibl) • Adnoddau'r Coleg • Cytuno ar safbwynt y Coleg	Safbwynt y Coleg i'w drafod fel rhan o'r Cynllun Strategol	Gorffennaf 2019

(Eitem 9bi)	**Adolygu cylch gorchwyl y Bwrdd Academaidd** 8.6 Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd yr argymhellion i ddiwygio cylch gorchwyl y Bwrdd Academaidd er mwyn gweithredu'r newid cyn y flwyddyn academaidd nesaf.		
9. Adroddiad y Prif Weithredwr **(Eitem 10)**	9.1 Derbyniwyd crynodeb llafar gan y Prif Weithredwr o'r adroddiad ysgrifenedig ar weithgareddau diweddar a oedd wedi ei gylchredeg o flaen llaw. **Addysg Uwch – trefniadau monitro** 9.2 Adroddwyd bod y Cyngor Cyllido wedi cyfarwyddo sefydliadau i ymgynghori gyda'r Coleg ar fesuryddion cyfrwng Cymraeg. Adroddwyd ymhellach bod set o dargedau, sefydliadol a chenedlaethol, wedi'u cytuno ar gyfer 2020/21, sy'n seiliedig ar y ganran o siaradwyr Cymraeg y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt astudio elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. **Cyd-destun polisi** 9.3 Adroddwyd ar gyhoeddi Adroddiad Adolygiad Augar ar gyllido addysg ôl-18 yn Lloegr a thrafodwyd y goblygiadau i bolisi ffioedd myfyrwyr yng Nghymru. Bydd cyfarfod cyswllt rhwng y Coleg a swyddogion y Cyngor Cyllido ar 3 Gorffennaf. **Comisiynydd y Gymraeg** 9.4 Adroddwyd mai bwriad Comisiynydd y Gymraeg yw cyhoeddi ei weledigaeth ar gyfer ei gyfnod yn y swydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. **Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)**		

	9.5 Adroddwyd ar newidiadau yn y maes hwn yn 2019/20. Ni fydd y Dystysgrif Cymhwysedd i Athrawon a ddatblygwyd gan y Coleg yn parhau ond mae'r Coleg wedi derbyn cais gan Lywodraeth Cymru i sicrhau cysondeb yn genedlaethol o ran yr hyfforddiant a gynigir. 9.6 Trafodwyd goblygiadau na fydd y niferoedd isel sy'n dilyn cyrsiau AGA drwy gyfrwng y Gymraeg yn diwallu anghenion gweithlu'r dyfodol. Argymhellwyd gosod camau i ddiwallu niferoedd AGA yn y Cynllun Strategol. **Y Gymraeg fel Pwnc** 9.7 Adroddwyd bod y Coleg wedi derbyn grant ychwanegol ar gyfer gweithgareddau yn ymwneud â'r Gymraeg fel Pwnc. Ar gais Llywodraeth Cymru mae'r Coleg wedi penodi Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg fel Pwnc. Trafodwyd y newidiadau i addysg blynyddoedd 12 a 13 mewn rhai siroedd a goblygiadau hynny ar ddarpariaeth ieithyddol. **Cyfarfodydd** 9.8 Adroddwyd ar gyfarfodydd gyda Phrif Weithredwyr nifer o gyrff eraill gan gynnwys ColegauCymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol; Aelodau'r Cynulliad; a Chomisiynydd y Gymraeg. **Cyswllt â Gwlad y Basg** 9.9 Adroddwyd ar ymweliad swyddogion i wlad y Basg ym mis Mawrth 2019 i ddysgu am ddatblygiadau addysg uwch yno a'r bwriad i sefydlu partneriaeth ffurfiol gyda Phrifysgol Gwlad y Basg i rannu arfer da ac ati.	Argymhelliad i'r Cynllun Strategol	Gorffennaf 2019

	Diweddariadau cyffredinol ar waith y Coleg 9.10 Derbyniwyd adroddiadau ysgrifenedig mewn perthynas â Marchnata a Chyfathrebu; Hyfforddiant Academaidd a Datblygu Staff; *Gwerddon* a phrosiectau cyhoeddi eraill; Cynllun Darlithwyr Cysylltiol; Cynllun Cymraeg Gwaith; Gwasanaethau Gwybodaeth; a Digwyddiad Deialog Diwydiant er gwybodaeth. 9.11 Diolchwyd i Nia Elias am hwyluso'r drafodaeth yn y Digwyddiad Deialog Diwydiant. 9.12 Yn ystod y drafodaeth nodwyd gwerthfawrogiad y myfyrwyr o waith marchnata'r Coleg ar y cyfryngau cymdeithasol.		
10. Cynllun Strategol **(Eitem 11)**	10.1 Rhoddwyd cyflwyniad ar Gynllun Strategol drafft y Coleg rhwng 2019/20 a 2023/24 gan y Prif Weithredwr. 10.2 Derbyniwyd dadansoddiad SWOT a baratowyd gan aelodau'r Bwrdd yn y cyfarfod allanol ar 14 Mai 2019. 103. Bwydwyd rhai sylwadau i'r Cynllun a chytunodd yr aelodau i anfon unrhyw sylwadau at y swyddogion erbyn diwedd yr wythnos. 10.4 Trafodwyd y camau i baratoi'r Cynllun Strategol dros yr haf er mwyn ymgorffori unrhyw ddatblygiadau o bwys a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Cytunwyd i gylchredeg fersiwn nesaf y ddogfen i aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd Gorffennaf ac i drefnu cyfarfod arbennig fis Medi ar gyfer trafodaeth bellach, petai angen, cyn ymgynghori'n ffurfiol ar y Cynllun o ganol Medi hyd ddiwedd Hydref.	Aelodau'r Bwrdd i ddarparu sylwadau NB i drefnu cyfarfod o'r Bwrdd fis Medi	Dechrau Gorffennaf 2019 Gorffennaf 2019

	Ar y pwynt hwn ymadawodd Pedr ap Llwyd y cyfarfod.		
11. Targedau a niferoedd **(Eitem 12)**	11.1 Cyflwynwyd adroddiad sy'n sefydlu trefn newydd ar gyfer trafod a chytuno targedau gyda'r prifysgolion ar gyfer eu cynlluniau ffioedd o 2019/20 ymlaen gan Dr Dylan Phillips. 11.2 Yn ystod y drafodaeth argymhellwyd nodi yn y mesuryddion y niferoedd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg rhugl ym mhob sefydliad. Trafodwyd yr heriau yn y gwahanol sefydliadau a bod angen rheoli disgwyliadau. *Ar y pwynt hwn ymadawodd yr Athro Jerry Hunter y cyfarfod.*		
12. Cynllunio Academaidd **(Eitem 13)**	12.1 Cyflwynwyd adroddiad ar newidiadau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y prifysgolion gan Dr Dylan Phillips. 12.2 Trafodwyd y sefyllfa gyfredol yn y sector gan gynnwys y pwysau ychwanegol ar staff cyfrwng Cymraeg; heriau cynnal darpariaeth; a datrys sefyllfaoedd anodd.		
13. Addysg Bellach **(Eitem 14)**	**Cynllun Gweithredu Addysg Bellach** 13.1 Nodwyd Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fis Ionawr 2019 ac a gylchredwyd cyn y cyfarfod. **Cyflwyniad** 13.2 Rhoddwyd cyflwyniad ar ddatblygiadau yn y maes addysg bellach gan Dr Lowri Morgans a Dr Dafydd Trystan. 13.3 Nodwyd bod datblygu'r meysydd blaenoriaeth; profiad y		

	dysgwyr; comisiynu adnoddau; cymwysterau; a chyflogwyr ar y gweill ond bod angen adnabod anghenion staffio tymor canolig. 13.4 Trafodwyd adborth o'r Digwyddiad Deialog Diwydiant lle y bu galw clir am brentisiaethau gan ystod eang o randdeiliaid; a chodwyd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Coleg a chefnogaeth i'r sector. **Sefydlu pwyllgor sefydlog ar gyfer y sector ôl-16** 13.5 Yn dilyn trafodaeth cytunwyd mewn egwyddor i sefydlu pwyllgor sefydlog ar gyfer y sector ôl-16, yn cyfateb i Fwrdd Academaidd y Coleg. Cytunwyd mewn egwyddor i ofyn i Meri Huws gadeirio'r pwyllgor. Cyflwynir enw'r pwyllgor a'i chylch gorchwyl i'r cyfarfod nesaf.	Cylch gorchwyl y pwyllgor ôl-16 i'r Bwrdd nesaf	27 Tachwedd 2019
14. Materion y Cadeirydd	**Cyfarfodydd** 14.1 Nododd y Cadeirydd bod y Prif Weithredwr ac yntau wedi cyfarfod Is-Ganghellor a Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth i drafod ffioedd a phrosiect Seren. 14.2 Nododd ei fod yn trefnu cyfarfodydd unigol gyda'r Cyfarwyddwyr yn ystod mis Gorffennaf. 14.3 Nododd ei fod wedi mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, y Bwrdd Academaidd, y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant. **Hunan-werthuso** 14.4 Ar ddiwedd y prynhawn cafodd pob aelod a swyddog a oedd yn bresennol y cyfle i werthuso'r cyfarfod. Cafwyd adborth cefnogol am safon ac amrediad gwaith y Coleg,		

	yr ymdeimlad o gydweithio pwrpasol fel tîm, a'r drafodaeth gefnogol a chynhwysfawr. **Noson wobrwyo Darlithwyr Cysylltiol** 14.2 Nodwyd trefniadau noson wobrwyo'r Darlithwyr Cysylltiol a fyddai'n dilyn y noson honno.		
15. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	15.1 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf: • 27 Tachwedd 2019, Caerfyrddin • 25 Mawrth 2020, Caerdydd • 24 Mehefin 2020, Pontypridd 15.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith. 15.3 Diolchwyd i staff Prifysgol Aberystwyth am eu cymorth gyda threfnu'r cyfarfod.		